

Llwybr newydd yn Ysgol Gynradd Talgarreg o dan y Cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol

Annwyl ddisgyblion, rhieni a staff,

Medi 2016

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod llwybr newydd wedi cael ei greu, gan gynnig cyswllt mwy diogel i gerddwyr rhwng yr Ysgol a Neuadd y Pentref, ac fe'i defnyddir bob dydd ar gyfer gweithgareddau'r ysgol a gan y clwb ar ôl ysgol. Mae hwn yn welliant sydd i'w groesawu, oherwydd yn flaenorol, arferai'r staff gerdded gyda'r plant ar hyd y ffordd fawr, lle nad oes palmant.

Mae gan y llwybr newydd wyneb artiffisial sy'n addas i'w ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn ac mae'n liw coch llachar hyfryd, sef y lliw a ddewiswyd gan y disgyblion eu hunain. Darparwyd y llwybr gan Wasanaethau Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion yn dilyn cais llwyddiannus am grant 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' gan Lywodraeth Cymru.



Mae Cyngor Sir Ceredigion, yn ogystal, wedi cael caniatâd caredig gan Bwyllgor Neuadd y Pentref Talgarreg i ganiatáu i staff yr ysgol barcio'u cerbydau yn y maes parcio, ac mae'n ddiolchgar am hyn.

Bydd yn helpu i leihau nifer y cerbydau sy'n parcio ar y ffordd fawr o flaen yr ysgol, gan wella diogelwch ar y ffordd yn y safle hwn.

Caniateir i rieni a gwarcheidwaid hefyd ddefnyddio'r maes parcio hwn ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, ac fe'ch cynghorwn yn gryf i wneud hynny er mwyn osgoi tagfeydd traffig y tu allan i glwyd yr ysgol. Byddwn yn ddiolchgar pe na fydech yn gyrru'ch cerbydau i lawr y lôn gul y tu ôl i Stad Bro Emrys oherwydd y bydd hyn yn peryglu'r plant sy'n defnyddio'r llwybr hwn. Ni chaniateir cŵn ar gae'r ysgol.

Gyda chydweithrediad cymunedol parhaus pawb, mawr obeithiwn y bydd y llwybr hwn yn datblygu i fod yn Llwybr Diogel poblogaidd i'n hysgol.

Mrs Mair Potter
Pennaeth Cyswllt

Y Cynghorydd Gareth Lloyd
Cadeirydd, Llywodraethwyr Ysgol Talgarreg



CYNGOR SIR
CEREDIGION
COUNTY COUNCIL



Llywodraeth Cymru
Welsh Government